

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys



Cylchlythyr
Hydref 2013



Croeso i gylchlythyr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar gyfer yr hydref, 2013!

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (CPAT) yn helpu i gadw, deall a dehongli archaeoleg a threftadaeth yng Nghymru a thu hwnt. Rydym ni'n gwneud hyn trwy gynnal y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH), cynghori cynllunwyr, tirfeddianwyr a ffermwyr, a darparu gwasanaethau archaeolegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a datblygwyr. Rydym ni'n un o bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru – gwelwch y map yn y tudalennau canol i gael mwy o wybodaeth.

Newyddion

Dechreuodd ein Cyfarwyddwr newydd – Paul Belford – yn ei swydd ym mis Mehefin 2013, ar ôl i Bill Britnell ymdeol. Mae gyrfa archaeolegol Paul wedi cwmpasu ystod o leoedd a chyfnodau, yn amrywio o Awstralia balaeolithig i dreftadaeth yr ugeinfed ganrif ar Ynysoedd Bermwda – ac mae hefyd yn cynnwys sawl blwyddyn wrth y llyw archaeolegol yn Ironbridge. Efallai nad yw'n syndod mai ei brif feysydd diddordeb yw archaeoleg ganoloesol ac ôl-ganoloesol, yn enwedig y diwydiannau haearn a dur, ac mae'n frwd dros archaeoleg gyhoeddus.



Paul Belford, cyfarwyddwr newydd CPAT



Y testun gan Paul Belford, Jeff Spencer a Sophie Watson; dyluniwyd gan Paul Belford a Sophie Watson. Mae'r delweddau yn hawlfraint © Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys oni nodir yn wahanol.

● Rydym ni wrth ein bodd o allu croesawu rhywun ar Leoliad Hyfforddiant Archaeolegol Cymunedol am flwyddyn o fis Medi 2013. Mae'r cynllun bwrsariaeth hwn gan y Cyngor Archaeoleg Brydeinig (CBA) yn rhoi'r cyfle i ni estyn ein gwaith archaeoleg gymunedol i feysydd newydd cyffrous. 'Ymgysylltu ag ieuentid' yw ffofws y swydd, felly gallwch chi ddisgwyl gweld deiliad ein bwrsariaeth yn codi allan yn ystod y misoedd nesaf!

Bryngaer Caer Ddigoll o'r awyr (uchod) ac adluniad diweddar (o gacen) i anrhydeddu ein cyfarwyddwr blaenorol Bill Britnell, a ymddeolodd yn gynharach eleni.



Mae gwaith cadwraeth yn parhau ar ein bryngaer yng Nghaer Digoll, dan gytundeb rheoli â Cadw. Am y tro, rydym ni'n canolbwyntio ar glirio eithin a choed o'r rhagfuriau, ac yn ceisio deall mwy am yr heneb. Mae croeso mawr i wirfoddolwyr ymuno â ni: rydym ni eisoes wedi gweithio ag ysgolion lleol, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a chwmmni o gyfrifwyr; fe fydd yna gyfleoedd gydol y flwyddyn i ddod i weithio â ni, felly ewch i'r wefan i gael manylion.

Mae Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol pob un o bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru i'w gweld ar-lein yn Archwilio. Mae Archwilio'n ffordd rwydd i ddarganfod archaeoleg Cymru trwy gofnodion mwy na 100,000 o safleoedd archaeolegol.



Hefyd, mae 'app' Archwilio ar gyfer ffonau symudol ar gael erbyn hyn. Datblygwyd hwn ar y cyd â'r tair Ymddiriedolaeth eraill, sy'n golygu y gallwch chi fynd â'r holl wybodaeth am dreftadaeth Cymru i'ch canlyn yn eich poced!

● Hen Caerwys

Mae cyd-brosiect CPAT a Cadw yn Hen Caerwys bellach yn ei drydedd flwyddyn. Yr haf hwn, fe ymunodd gwirfoddolwyr lleol a myfyrwyr o Brifysgol Caer â'r tîm i barhau i ymchwilio i'r safle dyrys hwn. Darganfuwyd Hen Caerwys gyntaf yn y 1960au. 'Pentref canoloesol anghyfannedd' ydyw, er efallai y byddai'n fwy manwl gywir dweud mai anheddiad aml-gyfnod ydyw, gyda'i dirwedd gysylltiedig. Ymhlith y darganfyddiadau hyd yma mae crochenwaith, gweddillion gweithio metel ac esgyrn. Un o'r llwyfannau tai oedd canolbwynt y gwaith cloddio eleni, yn ogystal â chlostir â muriau o gerrig a archwiliwyd i ddatgelu sut cafodd ei adeiladu.



● Gŵyl Archaeoleg

Am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd CPAT yng Nghanolfan Ymwelwyr Cwm Elan ger Rhaeadr Gwy i ddathlu'r Wyl Archaeoleg. Cafodd ymwelwyr y cyfle i wneud helmed a photyn canoloesol – yn gydnaws wrth gwsr â gweithgareddau grŵp ail-greu'r cyfnod canoloesol cynnar, Cwmwd lâl, a oedd yno hefyd mewn gwrsyll am y penwythnos i roi syniad i ymwelwyr o fywyd milwyr a fyddai'n ymdeithio yn oes y Mabinogi. Roedd yna arddangosfeydd coginiaeth a chrefftau, yn ogystal ag arddangosiad o sgiliau brwydro gan ryfelwyr Cwmwd lâl.



● Nantclwyd

Yn gynharach eleni, fe ymunodd grwpiau ysgolion lleol a gwirfoddolwyr brwd â staff CPAT i gloddio twmpath hynod yng Ngardd yr Arglwydd yn Nantclwyd y Dre. Mae tŷ Nantclwyd y Dre, sy'n fwy na 500 mlwydd oed, yn adeilad Rhestredig Gradd I, ac mae'r gerddi wedi'u dynodi'n Radd II. Ein nod oedd ymchwilio i nifer o ddamcaniaethau sydd wedi'u cynnig i esbonio'r twmpath. Mae'n bosibl iddo fod â chysylltiad â gwarchae yn ystod y Rhyfel Cartref, efallai fel safle canonau yn tremio dros gastell Rhuthun. Neu efallai mai llwyfan i fwynhau golygfeydd o'r ardd ydoedd. Ond fel mae'n digwydd bod, twmpath mwy diweddar ydy hwn, wedi'i lunio o rwbel adeiladu o dŷ Nantclwyd y Dre.



Darganfyddiad annisgwyl yn ystod gwaith cloddio yng Ngardd yr Arglwydd microllith fflint

Hynafiaethau Cludadwy

Mae gan CPAT berthynas dda â nifer o bobl leol sy'n defnyddio datgelyddion metel ac sy'n galw heibio i ddangos y pethau y maen nhw wedi'u darganfod ac i gael paned o de. Rydym ni'n tynnu llun o bob eitem, yn ei phwyso a'i mesur yn ofalus cyn ei dychwelyd i'r darganfyddwr, ac yna'n ychwanegu'r data at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a chronfa ddata'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy. Rydym ni hefyd yn helpu i roi gwybod i'r Crwner pan mae Trysor posibl wedi'i ddarganfod. Gwelwch dudalennau gwe CPAT neu'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy http://www.cpat.org.uk/services/portable/w_portab.htm neu <http://finds.org.uk/treasure/advice/summary> i gael gwybod mwy.

Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n helaeth iawn at waith CPAT, ac nid yn unig mewn gwaith maes. Hyd yn hyn eleni rydym ni wedi cael cymorth Joe Hampton, a ymunodd â ni am fis ar leoliad o Brifysgol Caer; mae Andrew Evans o'r Trallwng wrthi'n prosesu canlyniadau arolygon ffotograffig o adeiladau hanesyddol ac mae Robert Dobson o'r Drenewydd yn teithio ar hyd a lled rhanbarth Clwyd-Powys yn tynnu lluniau o henebion a safleoedd archaeolegol i'w hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych chi eisiau helpu, yna mae croeso ichi gysylltu â ni!

● Rheoli treftadaeth

Diben y gwaith hwn yw gwneud yn siŵr bod 'asedau' hanesyddol yn cael eu gwarchod a'u bod nhw'n goroesi yn y byd cyfoes. Cynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru yw Glastir, ac mae tîm Rheoli Treftadaeth CPAT yn cynghori tirfeddianwyr a rheolwyr contract Glastir ar sut i reoli nodweddion hanesyddol mewn ardaloedd ffermdir a choetir. Mae hyn yn golygu edrych trwy'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, edrych yn agos ar hen fapiau a ffotograffau, ac ymweld â safleoedd. Roedd yr adfail hwn, a oedd unwaith yn adeilad mawreddog, yn destun asesiad diweddar, ac mae'n nodweddiadol o lawer o'r materion sy'n codi. 'Hermitage' yw'r enw arno, ym Mro Grwyne ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n bosibl mai lluest hela ydoedd. Er nad oes unrhyw obaith o'i adfer erbyn hyn, defnyddiwyd Glastir i roi sylw i'r materion cymhleth o ran ei reoli, a chynorthwywyd â chael gwared â llystyfiant ac atgyfnerthu'r gwaith cerrig, gan ymestyn ei fywyd.



● Anheddiad cynhanesyddol a gweithfa haearn canoloesol

Mae ein prosiect parhaus yn Chwarel Borrás ger Wrecsam yn dal i gynhyrchu rhai canlyniadau cyffrous. Erbyn hyn, mae yna lawer iawn o dystiolaeth mai hwn yw'r anheddiad cynhanesyddol mwyaf i'w gofnodi yn y rhanbarth, i bob golwg. Mae sawl grŵp o byllau (rhai ohonyn nhw wedi'u defnyddio fel aelwydydd a ffyrnau) wedi cynnwys llawer iawn o grochenwaith, ac mae tyllau pyst yn awgrymu strwythurau amrywiol. Mae'r safle hefyd yn cynnwys yr unig dystiolaeth yn y rhanbarth o weithio haearn yn ystod y cyfnod canoloesol cynnar. Rydym ni wedi dod o hyd i symiau sylweddol o weddillion gofannu haearn, a phennwyd dyddiad radiocarbon rhwng 610 a 965 OC iddyn nhw.



Melin Yr Orsedd, Wrecsam – Melin Restredig Gradd II o'r 16eg ganrif gyda pheiriannau gyrru sy'n goroesi, yn cynnwys olwyn pwll, ymdrybaeddwr, ac olwyn sbardun mawr*

● Meysydd Awyr / Y Rhyfel Byd Cyntaf

Daeth cyfnod cyntaf y prosiect y mae Cadw'n ei ariannu ynglŷn â safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif i ben ym mis Mawrth pan gwblhawyd astudiaeth o feysydd awyr ledled Cymru. Cofnododd staff CPAT 3 maes awyr yr RFC a'r RAF yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth o strwythurau yn y dirwedd o'u hamgylch. Rydym ni nawr yn edrych yn fwy eang ar drefnadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf yn ein rhanbarth.

Mae'n bosibl defnyddio Archwilio i gyrchu'r adroddiadau terfynol ar bob un o'r prosiectau rydym ni'n sôn amdany'n nhw yn y cylchlythyr hwn – yn ogystal â'n holl waith arall – ac mae crynodebau ar gael ar wefan CPAT.



Diffyniad a adeiladwyd i warchod RAF Sealand.

● Melinau a melino

Mae gan lawer o felinau hanes hir iawn; mae rhai wedi goroesi fwy neu lai yn gyflawn tra bo eraill fawr mwy na gwrthgloddiau. Mae'r prosiect hwn yn ailedrych ar Adeiladau Rhestredig neu Henebion Rhestredig yr edrychwyd arny'n nhw gyntaf yn y 1990au. Diben y gwaith yw adolygu cyflwr pob safle i weld a oes angen newid y ffordd o'u gwarchod o gwbl.



Melin-y-Wern, melin yd Restredig Gradd II, Llanbedr Dyffryn Clwyd



Arfbais Uned Cynhalieth 30, RAF

Digwyddiadau 2013

Darlith, Evenjobb, 22ain Awst

.....
Diwrnod Hwyl, Caersws, 7fed Medi

.....
Arddangosfa, Sioe Kington, 14eg Medi

.....
Darlith, Llandrindod, 15fed Medi

.....
Darlith, Holt, 27ain Medi

Events 2013

Talk, Evenjobb, 22nd August


.....
Fun Day, Caersws, 7th September

.....
Exhibition, Kington, 14th September

.....
Talk, Llandrindod Wells, 15th September

.....
Talk, Holt, 27th September





The Newsletter can be downloaded from
www.cpat.org.uk/news/newslets/newslets.htm

© CPAT

Gellir lawrlwytho'r cylchlythyr o
www.cpat.org.uk/news/newslets/newslets.htm

© CPAT

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys,
 41 Stryd Lydan, Y Trallwng, SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670, ffacs: 01938 552179
 E-bost: trust@cpat.org.uk
 Gwefan www.cpat.org.uk
 Rhif Elusen 508301
 Rhif Cwmni 1212455
 Sefydliad Cofrestredig IFA, Rhif 6.

The Clwyd-Powys Archaeological Trust
 41 Broad Street, Welshpool,
 Powys, SY21 7RR

tel 01938 553670, fax 01938 552179
 email trust@cpat.org.uk
 website www.cpat.org.uk
 Registered Charity 508301
 Limited Company 1212455
 IFA RAO No 6

